Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

# Rhaglen frechu COVID-19 (stoc a dosbarthiad): ar 20 Mawrth 2022

Gwybodaeth reoli ddiweddaraf am stoc a dosbarthiad y brechlynnau coronafeirws ar 20 Mawrth 2022.

Cyhoeddwyd gyntaf: 23 Mawrth 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 23 Mawrth 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad-ar-20-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyflwyniad

Prif ganlyniadau

Cefndir

Gwybodaeth ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt

# Cyflwyniad

Mae'r datganiad ystadegol wythnosol hwn yn cynnwys gwybodaeth reoli am nifer y dosau o frechlynnau COVID-19 a roddwyd i Gymru a'r byrddau iechyd lleol.

Rydym yn cyhoeddi hwn i gefnogi'r ymrwymiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am y broses o gyflwyno'r brechlyn fel y'i nodir yn y **Strategaeth Frechu i Gymru**.

Nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys ystadegau am y bobl sydd wedi cael eu brechu. Caiff data ar y brechiadau a roddir eu cyhoeddi bob dydd a phob wythnos, a hynny ar **dangosfwrdd Gwyliadwriaeth COVID-19 Cyflym Iechyd Cyhoeddus Cymru**, gyda'r data wythnosol yn rhoi dadansoddiadau manylach.

Ar hyn o bryd cyflenwir a rhoir pedwar math o frechlyn y coronafeirws (COVID-19) yng Nghymru: Pfizer/BioNTech (12+ oed), Prifysgol Rhydychen / AstraZeneca, Moderna a Pfizer/BioNTech (5 i 11 oed). Cafodd y dos cyntaf o'r brechlyn Pfizer BioNTech (12+ oed) ei roi ar 8 Rhagfyr 2020, y dos cyntaf o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad-ar-20-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

frechlyn Prifysgol Rhydychen / AstraZeneca ar 4 Ionawr 2021, y dos cyntaf o frechlyn Moderna ar 7 Ebrill 2021, a’r dos cyntaf o frechlyn Pfizer/BioNTech (5 i 11 oed) ar 20 Ionawr 2022.

Mae’r holl ddata ar frechlynnau a ddyrannwyd ac a gyflenwyd i Gymru wedi’u cymeradwyo gan Lywodraeth y DU.

Mae’r data ar gael ar **StatsCymru**.

## Prif ganlyniadau

- Mae 8,019,890 o ddosau o frechlyn COVID-19 wedi'u dyrannu i Gymru.
- Mae 6,520,920 o ddosau o frechlyn COVID-19 wedi'u cyflenwi i Gymru.
- Adroddwyd bod 2.0% o'r dosau o frechlynnau yn anaddas i'w defnyddio. O’u rhannu yn ôl y math o frechlyn roedd: 1.3% o frechlyn Pfizer BioNTech (12+ oed), 2.0% o frechlyn Prifysgol Rhydychen / AstraZeneca, 4.5% o frechlyn Moderna a 19.0% o frechlyn Pfizer BioNTech (5-11 oed) yn anaddas i'w defnyddio.
- Mae'r nifer gymharol fach o ddosau Pfizer BioNTech (5-11 oed) a roddir yn golygu, er mai dim ond nifer fach o ddosau sydd wedi bod yn anaddas i'w defnyddio, bod y gyfran sy'n anaddas i'w defnyddio yn uchel o'i chymharu â mathau eraill o frechlynnau. Wrth i'r rhaglen datblygu, byddem yn disgwyl i'r gyfran hon leihau i fod yn agosach at frechlynnau eraill.

## Cefndir

Mae cyfanswm nifer y dosau a ddyrannwyd yn cyfeirio at nifer y dosau sydd, yn achos brechlynnau Prifysgol Rhydychen / AstraZeneca a Moderna wedi bod ar gael gan Public Health England i Lywodraeth Cymru eu harchebu (hyd at 11:55 ar 21 Mawrth 2022) neu, yn achos brechlyn Pfizer/BioNtech, sydd wedi'u cyflenwi'n uniongyrchol i Gymru gan y gwneuthurwr (hyd at ddiwedd 21 Mawrth 2022).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad-ar-20-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae cyfanswm nifer y dosau a gyflenwyd yn cyfeirio at nifer y dosau sydd naill ai wedi'u darparu gan ddosbarthwr Public Health England i'r GIG yng Nghymru neu, yn achos brechlyn Pfizer/BioNtech, sydd wedi'u cyflenwi gan ddosbarthwr Llywodraeth Cymru i'r GIG yng Nghymru, a dyma'r swm cronnol a gyflenwyd erbyn 23:59 ar 20 Mawrth 2022.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y brechlyn a ddyrannwyd i Gymru a'r brechlyn a gyflenwyd i Gymru yn cynnwys brechlynnau a ddyrannwyd ond nad ydynt wedi'u cyflenwi eto.

Mae nifer y dosau yn cynnwys y dosau Pfizer/BioNTech (12+ oed), AstraZeneca, Moderna a Pfizer/BioNTech (5 i 11 oed).

Mae'r ffigurau ar gyfer dosau a ddyrannwyd ac a gyflenwyd yn cyfeirio at un dos o frechlyn. Mae cwrs o frechlyn yn cynnwys nifer o ddosau ac yn amrywio rhwng unigolion, gweler yr **adran gwybodaeth ansawdd a methodoleg** am fwy o wybodaeth.

Daw'r data ar ddyrannu a cyflenwi brechlynnau o wybodaeth a ddarparwyd gan Public Health England (PHE) a Llywodraeth Cymru. Cesglir y data o wybodaeth reoli a gynhyrchir wrth weithredu'r Rhaglen Frechu ac a gaiff ei choladu'n anolog gan PHE ac, ar gyfer brechlyn Pfizer/BioNTech, gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r data yn wybodaeth reoli a ddefnyddir i gefnogi gweithgarwch brechu COVID-19. Nid yw'r data wedi bod yn destun yr un faint o waith sicrhau ansawdd ag ystadegau swyddogol, a gallent gael eu diwygio yn y dyfodol. Rydym yn cyhoeddi'r data hyn i ddarparu crynodeb wythnosol o'r gweithgarwch brechu yng Nghymru.

Mae'r brechlynnau sy'n anaddas i'w defnyddio yn cynnwys dosau sy'n methu'r broses sicrwydd yr yr archwiliad cychwynnol, dosau sy'n methu'r broses sicrwydd ansawdd ar ôl eu paratoi, a ffiolau/dosau sy'n dod i ben eu hoes yn ystod y sesiwn frechu.

Defnyddir data Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) o System Imiwneiddio Cymru (WIS) ar gyfer dosau o frechlynnau nad ydynt yn addas i'w defnyddio. Efallai y bydd dosau ychwanegol na ellir eu defnyddio ond nad ydynt wedi'u

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad-ar-20-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cofnodi.

Llywodraeth y DU sydd â'r contractau ar gyfer nifer y brechlynnau a'r ffordd y'u dosberthir ledled y DU. Caiff Cymru gyfran ar sail poblogaeth o'r holl frechlynnau a gaffaelir gan Lywodraeth y DU. Dyrennir brechlynnau i fyrddau iechyd ar sail meintiau o'r boblogaeth yng ngrwpiau blaenoriaeth y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) yn dilyn dyraniadau i Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae ICC a Felindre yn derbyn dyraniad yn gymharol â nifer y cyflogeion a ddosberthir fel gweithwyr gofal iechyd rheng flaen yn unol â meini prawf y JCVI. Mae Felindre yn derbyn dyraniad ar gyfer brechu gweithwyr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac unigolion sydd o dan ofal Canolfan Ganser Felindre sydd hefyd yng ngrwpiau blaenoriaeth JCVI.

Mae brechlynnau Pfizer BioNTech yn cael eu hanfon yn uniongyrchol i Gymru gan y gwneuthurwr. Mae dosbarthwr Llywodraeth Cymru yn dosbarthu brechlyn Pfizer BioNTech i ganolfannau brechu torfol, ysbytai a meddygfeydd. Caiff brechlyn Prifysgol Rhydychen/AstraZeneca ei ddosbarthu gan ddosbarthwr Public Health England yn uniongyrchol i ysbytai a meddygfeydd a lleoliadau gofal iechyd sylfaenol eraill. Mae brechlyn Moderna yn cael ei gyflenwi gan ddosbarthwr Public Health England i ddosbarthwr Llywodraeth Cymru sydd wedyn yn darparu’r brechlyn Moderna i ganolfannau brechu torfol, ysbytai, meddygfeydd a lleoliadau gofal iechyd sylfaenol eraill.

# Gwybodaeth ansawdd a methodoleg

## Cyd-destun

Gwybodaeth reoli yw'r data a ddefnyddir yn y datganiad hwn, a ddefnyddir i gefnogi gweithgarwch brechu COVID-19. Rydym yn cyhoeddi'r data hyn er mwyn darparu crynodeb amserol o'r rhaglen frechu. Nid yw'r data yn cyrraedd yr un safonau sicrhau ansawdd ag ystadegau swyddogol, a gallent gael eu diwygio yn y dyfodol.

Mae'r wybodaeth hon yn helpu i fonitro Rhaglen Frechu COVID-19.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad-ar-20-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Perthnasedd

Caiff data dyddiol ar nifer y bobl sydd wedi cael brechiadau eu cyhoeddi ar ddangosfwrdd **Gwyliadwriaeth COVID-19 Cyflym** Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC). Mae'r data a gaiff eu rhyddhau bob dydd yn dangos nifer cronnol y brechiadau a weinyddwyd; ar gyfer dosau cyntaf, ail, trydydd dos cynradd i'r rhai sy'n ddifrifol o imiwnoataliedig ac dosau atgyfnerthu. Mae'r ffigurau dyddiol yn rhoi diweddariad amserol ar gyflwyno'r rhaglen frechu, er y bydd nifer gwirioneddol y bobl a gaiff eu brechu yn uwch oherwydd y broses barhaus o gofnodi data. Bydd ICC hefyd yn cyhoeddi data wythnosol, manylach ar frechiadau drwy'r dangosfwrdd. Mae hyn yn cynnwys data ar lefel byrddau iechyd lleol, a bydd yn cael ei ehangu er mwyn cwmpasu mwy o bynciau dros amser.

Mae gwybodaeth i'r cyhoedd am frechlynnau ar gael ar **wefan ICC**.

## Cywirdeb

Datblygwyd seilwaith digidol ar gyfer trefnu apwyntiadau, cofnodi ac adrodd ar y gweithgarwch brechu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) er mwyn diwallu anghenion y rhaglen frechu. Gelwir hwn yn System Imiwneiddio Cymru. Daw'r data ar unrhyw ddosau o frechlyn nad oeddent yn addas i'w defnyddio o System Imiwneiddio Cymru ac mae'n adlewyrchu'r sefyllfa am 10pm ar ddydd Sul bob wythnos.

Efallai y bydd rhywfaint o'r data ar frechu wedi'u cofnodi ar ffurf cofnodion papur y gallai fod angen iddynt gael eu mewnbynnu o hyd ar yr adeg pan gaiff y data eu cymryd o'r system a'u rhannu. Gall y niferoedd gwirioneddol amrywio a chânt eu diwygio mewn datganiadau yn y dyfodol wrth i fwy o wybodaeth gael ei chofnodi.

Mae gwaith sicrhau ansawdd yn dal i fynd rhagddo ar ddata ar y brechlynnau sydd wedi'u darparu gan y dosbarthwr, ac felly gellid eu diwygio yn y dyfodol.

Yn y datganiad hwn, adroddir ar ffigurau'r brechlyn o ran dosau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad-ar-20-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyn 26 Ionawr 2021, roedd y wybodaeth cynnyrch ar gyfer y brechlyn Pfizer yn nodi bod pob ffiol yn cynnwys 5 dos; ond mewn rhai achosion efallai y bydd yn bosibl tynnu chweched dos o rai ffiolau. Cefnogir y defnydd o'r dos ychwanegol hwn gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA). O 26 Ionawr 2021, diweddarodd yr MHRA eu rheoliadau i nodi bod ffiol Pfizer yn cynnwys 6 dos yn swyddogol. Mae nifer y dosau o frechlyn Pfizer wedi'i gyfrifo ar sail y dyddiad y derbyniwyd y brechlyn yng Nghymru.

Mae'r wybodaeth cynnyrch ar gyfer brechlyn Prifysgol Rhydychen/AstraZeneca yn nodi bod ffiolau yn cynnwys 8 neu 10 dos (yn dibynnu ar y cyflwyniad), ond mewn rhai achosion efallai y bydd yn bosibl tynnu dos pellach (9fed neu 11eg) o rai ffiolau. Cefnogir y defnydd o'r dos ychwanegol hwn gan yr MHRA.

Mae dau gyflwyniad gwahanol o frechlyn Prifysgol Rhydychen/AstraZeneca yn cael eu cyflenwi:

- pecynnau 80 dos (Deg o ffiolau 4 ml gydag o leiaf 8 dos ym mhob ffiol)
- pecynnau 100 dos (Deg o ffiolau 5 ml gydag o leiaf 10 dos ym mhob ffiol)

Mae'r wybodaeth ar gyfer y brechlyn Moderna yn nodi y gellir tynnu 10 dos o 0.5mL o bob ffiol, sef y ffigur a ddefnyddir i adrodd y data a gyflwynir yn y datganiad hwn; fodd bynnag mae gorlenwi ychwanegol wedi'i gynnwys ym mhob ffiol i sicrhau y gellir dosbarthu 10 dos. Weithiau bydd yn bosibl tynnu dosau pellach o rai ffiolau. Mae MHRA yn cefnogi defnydd o'r dos ychwanegol hwn. Gyda'r brechu atgyfnerthu, mae'r dos argymelledig o frechlyn Moderna yw 0.25mL. Rhoddir Moderna mewn dosau 0.5mL a 0.25mL ac o'r herwydd bydd nifer y dosau mewn ffiol yn amrywio rhwng 10 ac 20 sydd yn dibynnu ar y gymysgedd o ddos cyntaf ac ail, a dosau atgyfnerthu a roddir.

Mae'r ffigurau ar gyfer dosau a ddyrannwyd ac a gyflenwyd yn cyfeirio at un dos o frechlyn. Mae cwrs o frechlyn yn cynnwys nifer o ddosau ac yn amrywio rhwng unigolion. Argymhellwyd tri dos i unigolion sy'n ddifrifol o imiwnoataliedig o ddechrau'r rhaglen frechu. Argymhellwyd dau ddos i weddill y boblogaeth gymwys, gyda thri dos yn cael ei argymell ar ôl i'r rhaglen atgyfnerthu ddechrau yn hydref 2021.

Caiff canran y dosau sy'n anaddas i'w defnyddio ei chyfrifo fel hyn: cyfanswm y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad-ar-20-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

dosau anaddas / (dosau a weinyddwyd a’r dosau anaddas). O 24 Hydref 2021, mae'r nifer gronnus o ddosau a weinyddir yn cynnwys cyrsiau tri dos cynradd a dosau atgyfnerthu. Ar adeg ei weithredu, defnyddiwyd dosau Prifysgol Rhydychen/AstraZeneca a Moderna mewn symiau bach ar gyfer y cyrsiau tri dos cynradd a dosau atgyfnerthu ac felly ychydig iawn o effaith a gafodd y newid hwn ar y ganran yr adroddwyd nad oedd yn addas i'w defnyddio. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad bach yng nghanran y dosau Pfizer BioNTech yr adroddwyd nad ydynt yn addas i'w defnyddio.

Yn ystod yr wythnos hyd at 5 Medi 2021, bu cynnydd yng nghanran y dosau o frechlyn yr adroddwyd fel nad oes modd eu defnyddio yng Nghymru. Cafodd hyn ei yrru’n bennaf oherwydd bod llwythi o frechlynnau AstraZeneca wedi cyrraedd dyddiadau darfod yn ystod mis Awst 2021, sy’n cyfrif am tua 40,000 o ddosau.

O 4 Hydref 2021, mae nifer y brechlynnau a ddyrannwyd i Gymru yn cynnwys stoc a ohiriwyd yn flaenorol ar gyfer y rhaglen atgyfnerthu COVID-19 sy’n dechrau yn Hydref 2021.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Data ar gyfer 8 Rhagfyr 2020 ymlaen sydd yn y datganiad hwn.

## Hygyrchedd ac eglurder

Rhoddwyd gwybod am y datganiad ystadegol hwn ymlaen llaw ac yna fe'i cyhoeddwyd yn yr **adran Ystadegau ac Ymchwil ar ein gwefan**. Mae tablau **StatsCymru** yn cyd-fynd ag ef fel y gall defnyddwyr weld y data.

## Cymaroldeb

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llunio **dangosfwrdd gwyliadwriaeth dyddiol** lle y gall defnyddwyr weld y wybodaeth ddiweddaraf am nifer y dosau o frechlyn COVID-19 a roddwyd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad-ar-20-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ar hyn o bryd nid yw Lloegr na Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi data ar stoc a chyflenwadau brechlynnau. Mae’r Alban yn cynnwys y data yn eu cyhoeddiad **Coronafeirws (COVID-19): data dyddiol ar gyfer yr Alban**.

Caiff data ar y dosau o frechlynnau COVID-19 a roddir yn **Lloegr** eu cyhoeddi ar **dudalennau Brechiadau COVID-19 gwefan NHS England**, ac fel data dyddiol o fewn **dangosfwrdd GOV.UK Coronafeirws (COVID-19)**.

Caiff data ar y dosau o frechlynnau COVID-19 a roddir yn yr Alban eu cyhoeddi fel data dyddiol yn y datganiad **Coronafeirws (COVID-19): data dyddiol ar gyfer yr Alban** gan Lywodraeth yr Alban ac ar y **dangosfwrdd brechiadau COVID-19** a gyhoeddir gan Public Health Scotland ac fel data dyddiol o fewn **dangosfwrdd GOV.UK Coronafeirws (COVID-19)**.

Cyhoeddir data ar gyfer y dosau o frechlynnau COVID-19 a roddir yng Ngogledd Iwerddon **ddangosfwrdd brechiadau** Health & Social Care Northern Ireland (HSCNI), ar fel data dyddiol o fewn **dangosfwrdd GOV.UK Coronafeirws (COVID-19)**.

## Statws Ystadegau Gwladol

Nid yw’r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol. Ond cyn belled ag sy’n ymarferol, maent wedi’u casglu a’u dilysu yn unol â’r pileri a’r egwyddorion yn y **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**. Rydym yn parhau i ddatblygu’r data a gasglwyd a’r broses sicrwydd ansawdd i wella’r data.

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn gyflym mewn ymateb i ddatblygiadau ar draws y byd.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad-ar-20-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Osodwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Diweddariad nesaf

Dydd Mercher 30 Mawrth 2022.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn adolygu amlder datganiadau ystadegol COVID-19 yn unol â'r **ddogfen cynllun pontio o bandemig i endemig COVID-19**, gan gynnwys y datganiad hwn. Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau neu adborth ar sut rydych yn defnyddio'r datganiadau hyn yn ogystal ag unrhyw newidiadau y gellir eu gwneud iddynt drwy **kas.covid19@llyw.cymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad-ar-20-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Manylion cyswllt

Os oes gennych ymholiad am y data, cysylltwch â
Ystadegydd: Ryan Pike
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **kas.covid19@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 90/2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad-ar-20-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Rhaglen frechu COVID-19 (stoc a dosbarthiad): ar 20 Mawrth 2022** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad-ar-20-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad-ar-20-mawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.